Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**
**Children and Young People Committee**

2 Hydref 2012

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad byr i waith y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS yng Nghymru). Fe fyddwch yn ymwybodol i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol gynnal ymchwiliad ac ymchwiliad dilynol i CAFCASS yn 2009 a 2011.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu:

- Y cynnydd a wnaed wrth weithredu argymhellion arolwg Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Tachwedd 2010 a'r ailstrwythuro sefydliadol a ddigwyddodd yn CAFCASS Cymru yn dilyn hynny;

- Pa mor effeithiol mae CAFCASS Cymru yn darparu ei wasanaethau yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, er enghraifft, ymgysylltu â'r defnyddiwr a gwneud penderfyniadau er lles pennaf y plentyn;

- Pa mor effeithiol mae CAFCASS Cymru yn cyflawni ei rôl o ddarparu canolfannau cyswllt â phlant;

- Goblygiadau yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a'i effaith ar waith CAFCASS Cymru;

a byddai'n croesawu eich sylwadau ar unrhyw un, neu'r cyfan o'r pwyntiau uchod.

**Gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

E-bost / Email: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i PwyllgorPPI@cymru.gov.uk.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Y Clerc
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich tystiolaeth yn ein cyrraedd erbyn **dydd Gwener 9 Tachwedd 2012**. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd**